# Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Mawrth 2011

Annwyl

**Cai am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais a drosglwyddwyd o Lywodraeth Cymru ar 16 Chwefror pan wnaethoch holi am:

*1. Nifer y pwyllgorau sydd ar hyn o bryd wedi eu creu gyda'r cylch gwaith Polisi Economaidd, Datblygiad Economaidd ac Adfywio Economaidd.*
*2. Nifer yr aelodau'r o'r pwyllgorau hyn sydd wedi eu pennu'n gynghorwyr neu'n ymgynghorwyr am dâl, a chost eu haelodaeth bob blwyddyn.*
*3. Nifer yr aelodau o'r cyhoedd heb dâl sy'n aelodau o'r pwyllgorau hyn.*

Mae ein pwyllgorau i gyd, a'u cylchoedd gwaith, yn cael eu cyhoeddi ar y we:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees.htm
Cafodd y pwyllgorau eu llunio i gael cylchoedd gwaith trawsbynciol, a gallai unrhyw un ohonynt edrych at faterion sy'n ymwneud ag agweddau ar y tair thema sydd wedi eu rhestru uchod, gan ddibynnu ar y meysydd gwaith manwl maent wedi penderfynu canolbwyntio arnynt. Yn ogystal, bydd pwyllgorau Deddfwriaeth yn edrych ar ba ddarn bynnag o ddeddfwriaeth sy'n cael ei ddyrannu iddynt.
Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Aelodau'r Cynulliad yn unig sy'n aelodau o bwyllgorau'r Cynulliad, neu o is-bwyllgorau y pwyllgorau hynny. Felly, yr ateb i'ch cwestiynau 2 a 3, ym mhob achos, yw “dim”.

Yr unig aelodau o bwyllgorau sy'n cael unrhyw dâl yn ychwanegol at eu cyflogau sylfaenol fel Aelodau o'r Cynulliad yw'r Cadeiryddion; mae lefel eu taliad hwy'n cael ei chyhoeddi yn y Penderfyniad:
http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-expenses-2.htm


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae gan Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy gyfrwng Rheol Sefydlog 10.49, hawl i benodi cynghorwyr er mwyn darparu cyngor arbenigol, yn unol â chanllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan y Comisiwn. Hyd yn hyn nid oes yr un pwyllgor wedi gofyn am benodi cynghorydd i weithio gydag ef yn barhaus. Yn y Trydydd Cynulliad, cafwyd rhai ychydig enghreifftiau lle mae pwyllgorau wedi penodi cynghorwyr i weithio gyda hwy ar ddarn penodol o waith, er enghraifft, ar ymchwiliad penodol. Bydd y math hwn o benodiadau'n para dim ond tra bydd y darn hwnnw o waith yn para, ac maent yn gyfyngedig o ran natur, er enghraifft, i ddim mwy na hyn a hyn o ddiwrnodau.

Hwyrach y bydd o ddiddordeb ichi wybod bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu pwyllgorau cynghorol ar y materion rydych yn sôn amdanynt. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru drwy glicio ar y linc a ganlyn,
http://wales.gov.uk/newsroom/businessandeconomy/2010/100926sectorpanels/?skip=1&lang=cy

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae manylion am egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad wedi eu gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm
Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire

SK9 5AF

Yours sincerely

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru